NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Mewnblannu pwmp isgroenol llif isel awtomatig ar gyfer asgites atglafychol a achosir gan sirosis

14 Tachwedd 2018

Prin yw'r dystiolaeth gadarn sy'n dangos pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio a gallai achosi cymhlethdodau difrifol. Gellir ei defnyddio, ond dim ond pan fydd cleifion yn cael archwiliadau rheolaidd i weld pa mor dda y mae'n gweithio neu a yw wedi achosi problemau.

Gall niwed hirdymor i'r afu/iau (sirosis) achosi hylif i gronni yn yr abdomen (asgites). Gall hyn arwain at ddiffyg archwaeth am fwyd, blinder, anhawster anadlu a haint. Caiff pwmp a bwerir gan fateri ei osod o dan y croen yn ystod y driniaeth hon. Defnyddir dau diwb i'w gysylltu â'r abdomen a'r bledren.  Caiff y bateri ei wefru â thechnoleg ddiwifr, sy'n cymryd tua hanner awr bob dydd. Y nod yw pwmpio hylif gormodol o'r abdomen i'r bledren lle y caiff ei basio yn yr wrin.

Gall gwefan NHS Choices fod yn lle da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

## *Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt*

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-3119-4

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights